CYNGOR TREF LLANDEILO FAWR TOWN COUNCIL

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Llandeilo Fawr a gynhaliwyd yn Hengwrt ar Ddydd Mercher 18fed Mai 2022 am 7.00yh

**Presennol :** Cyng Dawn Wallace, Cyng Richard Wallace, Cyng Rob Jones, Cyng Christoph Fischer, Cyng Charlotte Walker, Cyng Eifion Davies, Cyng Charlotte Morgan, Cyng Geraint Price, Cyng Edward Thomas, Mr Owen James (Clerc), Mr David Eve (Swyddpog Cyllid), Mr Eifion Jones (Swyddog Cyfleusterau)

**Ymddiheuriadau :** Cyng Gordon Kilby (apwyntiad ysbyty)

**Cyn cychwyn y cyfarfod, gofynnodd y Clerc i'r holl Gynghorwyr ddarllen ac arwyddo'r llw i dderbyn eu penodiad fel Cynghorydd.**
**Gofynnwyd i bob Cynghorydd lofnodi eu Datganiadau i gadw at y Cod Ymddygiad.**

## Cof 29 / Mai / 22 – Anerchodd y Maer Rob Jones y cyfarfod

Dechreuodd y Cyng Rob Jones drwy roi trosolwg o'i amser fel Maer. Mewn cyfnod o'r fath roedd ganddo deimladau cymysg gan fod Covid wedi amharu llawer ar y flwyddyn a bod llawer o ddigwyddiadau arferol ddim wedi cymryd lle er iddo lwyddo i fynychu rhai digwyddiadau.

Pwysleisiodd pa mor dda y mae'r gwirfoddolwyr sydd ar y tîm torri gwair yn y parciau yn cyflawni eu gwaith. Dywedodd bod y grantiau a y bu'r cyngor yn llwyddiannus i'w hennill wedi bod yn ychwanegiad i'w groesawu. Hyd yn oed gyda chwtogi ar y cyfleuon i godi arian a drefnwd, llwyddodd Rob i godi dros £2000.00 i'w elusennau.

Dywedodd pa mor wych oedd gweld cynulleidfa o dros 170 yng ngwasanaeth dinesig y Maer, a diolchodd i bawb a fynychodd yr achlysur. Diolch i'r holl gynghorwyr a swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a mynegodd ei longyfarchiadau i'r rhai sydd wedi cadw eu seddi. Dymunodd wellhad buan i'r Cynghorydd Gordon Kilby ar ôl llawdriniaeth fawr. Diolchodd yn olaf i Colin Jenkins, Lesley Prosser a Chris Parish am eu gwasanaeth i'r cyngor.

## Cof 30 / Mai / 22 – Cadarnhau'r Enwebiadau ar gyfer swydd Maer Llandeilo am y Flwyddyn 2022-23

Cynigodd y Cyng. Edward Thomasy Cyng. Gordon Kilby, eiliwyd gan y Cyng. Charlotte Morgan.
Cafwyd 6 pleidlais o blaid gyda 2 yn ymatal.

A chaniatáu i'r Cynghorydd Gordon Kilby dderbyn y swydd ar ôl iddo ddychwelyd o adfiechyd, Gordon fydd y Maer am y flwyddyn 2022-2023

## Cof 31 / Mai / 22 – Cadarnhau'r Enwebiadau ar gyfer swydd Dirprwy Faer Llandeilo am y flwyddyn 2022-23

Cynigodd y Cyng. Eifion Davies y Cyng Christoph Fischer, eiliwyd gan y Cyng Charlotte Walker

Cafwyd 5 pleidlais o blaid gyda 3 yn ymatal.

Derbyniodd y Cynghorydd Christoph Fischer yr enwebiad a bydd yn Ddirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.

## Cof 32 / Mai / 22 – Ethol a phenodi cynrychiolwyr i bwyllgorau a chyrff eraill

1. Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Gynradd Llandeilo: Y Cynghorydd Gordon Kilby fydd y cynrychiolydd. Roedd y Cyng Christoph Fischer yn hapus i gamu i mewn os nad oedd Gordon Kilby ar gael. Clerc i gysylltu â Karen Towns, Pennaeth Ysgol Gynradd Llandeilo.

2. Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Gymraeg Teilo Sant: Y Cyng. Robert Jones fydd y cynrychiolydd.

3. Cymdeithas Gefeillio Trefi: yn ôl eu cyfansoddiad, y Maer yw hwn, Cyng. Gordon Kilby.

4. Un Llais Cymru: Cynigwyd y Cyng Eifion Davies gan y Cyng. Edward Thomas. Eiliwyd gan y Cyng Rob Jones. Roedd pawb o blaid.

5. Monitro Polisi Cyfle Cyfartal: Cynigwyd y Cyng Geraint Price a'r Cyng Charlotte Walker gan y Cyng. Charlotte Morgan, eiliwyd gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

6. Monitro Polisi Iaith Gymraeg: Cyng Robert Jones.

7. Monitro Polisi Cyhoeddi: Cynigwyd y Cyng Charlotte Morgan a'r Cyng Christoph Fischer gan y Cyng. Geraint Price, eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

8. Monitro Polisi Iechyd a Diogelwch: Cynigwyd y Cyng Dawn Wallace, y Cyng Charlotte Walker a'r Cyng Geraint Price gan y Cyng. Rob Jones, eiliwyd gan y Cyng Charlotte Morgan. Roedd pawb o blaid.

## Cof 33 / Mai / 22 – Ystyried a yw'r Cyngor yn dymuno cynnal cyfarfodydd ar wahân ar gyfer cyfarfodydd Cynllunio, Cyllid a'r Cyngor Llawn.

Ar ôl trafodaeth gynhwysfawr o ddwy ochr y ddadl, cynigodd Eifion Davies bod y Cyngor yn cael un cyfarfod statudol y mis, gydag opsiwn i gael cyfarfod arbennig ychwanegol pe bai angen. Bydd cadeirydd ar gyfer Cynllunio a Chyllid yn cael ei ethol. Byddai rheolau sefydlog ariannol yn cael eu hadolygu yn unol ag un cyfarfod y mis. Eiliwyd gan y Cyng Richard Wallace, Pawb o blaid.

## Cof 34 / Mai / 22 – Penodi pwyllgorau sefydlog ac ystyried cyfansoddiad y gweithgorau

a) Pwyllgor Staffio

i) Pwyllgor Disgyblu a Chwynion:
Cyng Dawn Wallace, Cyng Gordon Kilby, Cyng Christoph Fischer, Cyng Charlotte Morgan.

ii) Pwyllgor Apelau:
Cyng Rob Jones, Cyng Edward Thomas, Cyng Geraint Price, Cyng Eifion Davies.

b) Swyddog Monitro Staff – Cyng Edward Thomas.

c) Gweithgorau:

i) Pwyllgor Tân Gwyllt:
Cyng Charlotte Walker, Cyng Geraint Price, Cyng Eifion Davies, Swyddog Cyfleusterau.

ii) Gweithgor Parciau a Llandeilo yn ei Blodau:
Cyng Dawn Wallace, Cyng Charlotte Walker, Cyng Charlotte Morgan, Cyng Geraint Price, Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace.

iii) Grŵp Gwirfoddolwyr:
Cyng Christoph Fischer, Cyng Charlotte Walker, Clerc.

iv) Pwyllgor gweithdrefnau:
Cyng Richard Wallace, Cyng Christoph Fischer, Cyng Gordon Kilby, Cyng Dawn Wallace, Cyng Edward Thomas.

v) Polisi/Grŵp amgylcheddol:
Cyng Charlotte Morgan

vi) Grŵp Cyhoeddi:
Cyng Charlotte Walker, Cyng Charlotte Morgan, Cyng Christoph Fischer.

vii) Pwyllgor Goleuadau Nadolig:

Cyng Geraint Price, Cyng Eifion Davies, Cyng Christoph Fischer, Cyng Charlotte Walker, Swyddog Cyfleusterau.

viii) Grwp Dydd Gwyl Dewi:
Cyng Rob Jones, Cyng Eifion Davies.

ix) Pwyllgor Jiwbilî / Parti yn y Parc:
Cyng Dawn Wallace, Cyng Charlotte Morgan, Cyng Rob Jones, Cyng Richard Wallace.

x) Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid:
Cyng Eifion Davies, Cyng Gordon Kilby, Cyng Charlotte Walker, Cyng Christoph Fischer, Cyng Rob Jones.

## Cof 35 / Mai / 22 – Ystyried talu unrhyw danysgrifiadau, Debydau Uniongyrchol ac Archebion Sefydlog

i) Polisi Yswiriant Blynyddol
ii) Aelodaeth Flynyddol o'r Gymdeithas Clercod Lleol
iii) Tanysgrifiad blynyddol i Un Llais Cymru
iv) Pensiwn Nyth – Debyd Uniongyrchol
v) Contractau Symudol
vi) PWLB – bob 6 mis – rheol sefydlog
vii) WCVA – misol – archeb sefydlog
viii) Yswiriant cyfrifiadurol Curry

Cynigodd y Cyng. Eifion Davies bod yr holl danysgrifiadau, archebion sefydlog a Debydau Uniongyrchol yn cael eu hystyried a'u talu erbyn y dyddiadau priodol ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng Edward Thomas. Pawb o Blaid.

## Cof 36 / Mai / 22 – I archwilio unrhyw weithredoedd ac offerynnau ymddiriedolaeth sydd yng ngofal y cyngor

Cadarnhawyd bod y rhain ym meddiant y cyngor.

## Cof 37 / Mai / 22 – Ystyried penodi Cyfreithiwr y cyngor

Cynigodd y Cyng. Eifion Davies i barhau i ddefnyddio Cyfreithwyr Carreg Law. Eiliwyd gan Edward Thomas, pawb o blaid.

## Cof 38 / Mai / 22 – Penodi Archwiliwr Mewnol y Cyngor ar gyfer 2022/23

Cynigodd y Cyng. Eifion Davies y dylid parhau i ddefnyddio Lyn Llywelyn, eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Pawb o blaid.

## Cof 39 / Mai / 22 – Ystyried y cwestiwn a fydd tâl ac amodau Clerc y Dref, Swyddog Ariannol a Swyddog Cyfleusterau yn cael eu hadolygu.

Dywedwyd wrth y Cyng. Edward Thomas am gynnal adolygiad yn unol â NALC. Hefyd dylid creu grŵp i astudio amodau gwaith. Cynigwyd gan y Cyng. Geraint Price, eiliwyd gan y Cyng Rob Jones.

Grŵp monitro staff:
Cyng Geraint Price, Cyng Eifion Davies, Cyng Edward Thomas, Cyng Charlotte Walker.

## Cof 40 / Mai / 22 – Hysbysebu dwy swydd wag fel cynghorydd.

Clerc i hysbysebu'r swyddi gwag ynghyd â'r 28 diwrnod o rybudd. Cynigwyd gan y Cyng Christoph Fischer, eiliwyd gan y Cyng Rob Jones. Pawb o Blaid.